| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 8 Mehefin 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 25 Ebrill 2023 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2023/24. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Daeth chwe phrif flaenoriaeth i'r brig o'r ymatebion i'r cwestiwn, sef:

1 Strategaeth Addysg
= Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
= Cynllun Economi Gwynedd
2 Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon
= Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd
= Rheolaeth Traethau

3. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2023/24. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

5. Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad gweler rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar bob achlysur gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer un cyfarfod. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

6. Adnabuwyd yn y gweithdy dwy eitem fel eitemau posib i'w craffu yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu yn 2024/25. Sef, 'Cyfundrefn Addysg Drochi' a 'Gwasanaeth Ieuenctid'.

7. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

8. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24

| **08/06/2023** |
| --- |
| • Cynllunio Argyfwng<br>• Bwrlwm Canol Tref |
| **14/09/2023** |
| • Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd<br>• Strategaeth Addysg<br>• Cynllun Digidol |
| **09/11/2023** |
| • Adroddiad Blynyddol Addysg<br>• Adroddiad Blynyddol GwE<br>• Cwmni Byw'n Iach<br>• Rheolaeth Traethau |
| **25/01/2024** |
| • Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd<br>• Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon<br>• Cynllun Economi Gwynedd |
| **21/03/2024** |
| • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar<br>• Cinio ysgol am ddim<br>• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

<u>Eitemau i'w rhaglennu yn 2024/25</u>:

Cyfundrefn Addysg Drochi

Gwasanaeth Ieuenctid